
**Taith ryngwladol Natasha Asghar AS i Tokyo, Japan**

**Trosolwg**



Ar ôl cwrdd â sawl busnes o Japan sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, cefais fy annog i ymweld i gael golwg ar y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng y ddwy wlad.

Rhwng 22 a 26 Mawrth, roeddwn i yn Japan i wneud hynny a chwrdd ag amrywiaeth o unigolion, busnesau ac ysgolion fel rhan o'r genhadaeth canfod ffeithiau hon.

Roedd hefyd yn gyfle gwych i mi archwilio arferion gorau a gweld beth y gellid ei gyflwyno yn ôl yng Nghymru i wella pethau.

**Cyfarfod â Llysgennad y Deyrnas Unedig i Japan**

Dechreuais fy nhaith yn Llysgenhadaeth Prydain yn Tokyo lle y gwnes i gwrdd â Llysgennad y DU i Japan, Julia Longbottom.



Buom yn trafod amrywiaeth o bynciau gan gynnwys system addysg Japan, y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus, yr economi a'r gwasanaeth iechyd.

Un maes yr oeddwn i'n awyddus i ddysgu mwy amdano oedd y 'Canolfannau Arian', sydd wedi profi'n hynod boblogaidd yn Japan.

Roedd Casnewydd, cyrchfan yr ymwelodd y Llysgennad ag ef yn eithaf diweddar, hefyd yn uchel ar yr agenda a buom yn trafod uchafbwyntiau'r ardal a sut mae adfywio trefi a dinasoedd Cymru.

Yna ymunais â'r Llysgennad am dderbyniad byr yn ei chartref swyddogol.

**Cyfarfod â Central Japan Railways**

Croesawodd staff Central Japan Railways fi ar fwrdd y Shinkansen - y trên bwled fel mae’n cael ei alw - i gael blas ar drafnidiaeth fodern.



Ymunais â'r gyrrwr trên yn ei gaban ar gyfer y daith o Tokyo i Shin-Yokohama gan gael syniad gwell o weithrediadau mewnol y trên gwib.

Roedd hyn yn dilyn cyfarfod gydag uwch staff Central Japan Railways yn eu pencadlys yn Tokyo.



Buom yn trafod hanes y cwmni, ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol, logisteg rheilffyrdd gwib, fforddiadwyedd ac effeithlonrwydd.

Cefais daith o gwmpas canolfan reoli gyffredinol y cwmni sy'n gofalu am weithrediad y trenau, y cerbydau, pŵer trydan, seilwaith, signalau a thelathrebu a chefais sesiwn holi ac ateb yno.

Nid yn unig hynny, ond mae'r ganolfan yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth ar bethau fel glaw, daeargrynfeydd, cynnal a chadw ac yn gwneud penderfyniadau cyn rhoi gorchmynion i'r maes.

Gyda chyflymder uchaf o 285km yr awr, mae mwy na 470,000 o deithwyr yn defnyddio'r Shinkansen bob dydd ac mae yna 373 o wasanaethau dyddiol.

Ers ei lansio ym 1964, ni fu unrhyw farwolaethau nac anafiadau a dim ond munud o oedi ar y mwyaf sydd bob blwyddyn i bob trên ar gyfartaledd.

Roedd yr ymweliad â’r Shinkansen hefyd yn gyfle i mi brofi trafnidiaeth wirioneddol integredig - rhywbeth rwy'n credu'n gryf ynddo - a byddaf yn ei godi gyda Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen.

Gwahoddais gynrychiolwyr o'r cwmni i ymweld â Chymru a gweld â’u llygaid eu hunain y drafnidiaeth gyhoeddus tra gwahanol sydd gennym ni yno.

**<u>Cyfarfod â'r Ysgol Brydeinig yn Tokyo</u>**



Neilltuodd myfyrwyr yn yr Ysgol Brydeinig yn Tokyo amser yn eu diwrnod prysur ar gyfer sgwrs a sesiwn holi ac ateb gyda mi.

Rhoddais flas iddyn nhw ar waith y Senedd, trosolwg o adeilad y Senedd, buom yn trafod fy nhaith gyrfa, rhai o uchafbwyntiau niferus y swydd hyd yma ac wrth gwrs y terfynau cyflymder o 20mya.

Roedd hefyd yn gyfle i fyfyrwyr, llawer o Fodel y Cenhedloedd Unedig, rannu'r hyn yr oedden nhw'n meddwl oedd yn gweithio'n dda yn Japan ac y gellid ei efelychu yng Nghymru.

Yna atebais gwestiynau gan y grŵp ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys polisi Rwanda Llywodraeth y DU, defnyddio Deallusrwydd Artiffisial, costau byw ac arddangos Cymru i'r byd.

Gyda rhai o'r myfyrwyr yn bwriadu mynd i'r DU, cynigiais gyfle iddyn nhw gael profiad gwaith a thaith o amgylch y Senedd ac fe wnes i rannu rhai 'awgrymiadau defnyddiol' os oedden nhw'n ystyried gyrfa mewn gwleidyddiaeth.








Ymwelais hefyd â Chysegr Meiji, sef cysegr Shinto i ysbrydion dwyfol yr Ymerawdwr Meiji a'i wraig, yr Ymerodres Shōken.

Yno, ysgrifennais dabled offrwm ar ran fy etholwyr ledled Dwyrain De Cymru.

Yn ystod y daith, fe wnes i gwrdd â staff yn Samsung i drafod technoleg, ymweld ag Ysgol Ryngwladol y Merched Shibuya, darganfod ardal dechnoleg y ddinas, a theithio o amgylch y Diet Cenedlaethol, sef Senedd Japan.

